

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

YMWRTHEDD GWRTHFICROBAIDD (AMR): A ALL TECHNOLEGAU MANWL GYWIR HELPŪ?

LLYGREDD AER: LLEIHAIU ALLYRIADAU AMONIA DRWY ADDASU DULLIAU RHEOLI DA BYW

Rhwydwaith Arddangos

Rhiwaedog: Gwerthuso manteision technoleg synhwyro pan fo buwch yn gofyn tarw er mwyn sicrhau enillion o ran ffrwythlondeb y fuches laeth

Nod y prosiect yn Rhiwaedog yw tynhau'r cyfnodau lloea i ddau floc wyth wythnos (Chwefror-Mawrth a Mai-Mehefin) a lleihau'r bwch rhwng lloeau i 'un llo byw' bob 365-375 diwrnod.

Yn gyntaf, rhoddwyd prawf ffrwythlondeb i'r teirw. Dangosodd y canlyniadau eu bod yn iach ac yn gallu cynhyrchu sampl hyfyw o semen. Yna defnyddiwyd coleri Moocall ar ddau darw ac fe wnaeth y rhain ganfod pa fuchod oedd wedi cael eu gweld yn gofyn tarw. Pan gawsant eu sganio, roedd mwyafrif y buchod wedi eu dynodi yn gyflo ers 35 diwrnod neu fwy. Roedd buchod na welwyd eu bod yn gofyn tarw o fewn mis yn cael eu harchwilio; rhoddwyd triniaeth gyd-amseru i bedair gyda dwy wedi eu cadarnhau yn gyflo hyd yn hyn. Mae rhai buchod wedi cael eu trin am syst ar yr ofari na fyddai wedi cael ei ganfod heb ddefnyddio'r dechnoleg yma.

Yn gyffredinol mae'r buchod wedi mynd yn gyflo yn fuan ac mae'r rhai sy'n lloea'n hwyrach wedi cael eu tynnu i mewn pan oedd hynny'n bosibl. Mae rhai o'r buchod wedi cael eu cadw'n ôl rhag cael tarw tan fis Ebrill i'w dwyn i batrwm gweddill y fuches. Efallai y bydd angen cael gwared ar rai o'r buchod yma, yn arbennig os bydd yn heriol i'w cael yn gyflo, neu os bydd ganddynt broblemau eraill ar yr un pryd.

Mae'r mynegai a ragwelir ar gyfer 2021 yn awgrymu y bydd y mynegai lloea yn 13 diwrnod yn fyrrach o ganlyniad uniongyrchol o ddefnyddio technoleg Moocall i ganfod arwyddion gofyn tarw. Bydd y prosiect yn parhau i bennu a ellir cael mwy o enillion yn y dyfodol.



Ffigwr 1. Tarw gyda cholera Moocall Heat gyda gwartheg yn Rhiwaedog

Mountjoy: Dethol ar gyfer geneteg effeithlon mewn buches sy'n lloea yn y gwanwyn

Cafodd y fuches ar fferm Mountjoy ei sychu yn ystod mis Chwefror. Darparodd Will Hannah rai o'r ffigyrau ar gyfer diwedd y tymor ac mae'n nodi mai hwn yw'r tymor gorau o ran perfformiad y fuches ers newid i system loea mewn bloc. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i dywydd ffafriol dros y flwyddyn ddiwethaf i raddau gan fod y fferm wedi llwyddo i gasglu toriad cyntaf o silwair yn gynharach nag erioed, sydd hefyd wedi helpu perfformiad ac iechyd y gwartheg.


Roedd ffigyrau perfformiad yn cynnwys:

- 6,924 litr ar gyfartaledd ar 1.1 tunnell o ddwysfwyd
- 518kg o solidau llaeth
- 4,770 litr oddi ar borthiant
- 47 achos o fastitis, ychydig yn uwch na'r llynedd. 7.8 achos fesul 100 o wartheg (y cyfartaledd cenedlaethol yw 50 achos fesul 100 o wartheg)
- Defnyddiwyd tiwbiau ar 38 o wartheg sych
- Roedd 8% o'r fuches yn wag ar ôl cyfnod o 12 wythnos
- Gwartheg a oedd yn cael eu difa ar ddiwedd y tymor yn £500 ar gyfartaledd rhwng y farchnad a'r lladd-dy
- Y gyfradd gyfnewid ar gyfer 2021 fydd 16.6

Mae Mountjoy wedi bod yn canolbwyntio ar leihau'r defnydd o wrthfotigau'n sylweddol wrth sychu. Dim ond 10% o wartheg sy'n cael triniaeth wrthfotig wrth sychu trwy therapi buchod sych dethol. Mae'r lleihad hwn mewn defnydd o wrthfotigau wedi arwain at arbediad o £1,350 i'r fferm. Mae hyn, ynghyd ag arferion sychu wedi'u cynllunio'n drylwyr, wedi bod yn fuddiol iawn i'r busnes.

Bryn: Canolbwyntio ar berfformiad y fenter biff

Y prif nod ar fferm Bryn yw gwella effeithlonrwydd y fuches sugno. Mae Ffigwr 1 yn dangos bod y patrwm lloea yn 2020 yn dynnach nag yn 2019, gyda mwyafrif yr 87% o'r lloea'n cael eu geni o fewn y chwe wythnos gyntaf (77% yn 2019), Trwy wella sgôr cyflwr corff a maeth ymhellach, y nod yw sicrhau gwelliant pellach dros y flwyddyn nesaf. Mae'r fferm hefyd yn ystyried symud y cyfnod lloea i dair wythnos yn ddiweddarach a fydd yn rhoi mwy o amser i'r gwartheg i orffwys, a'r gobaith yw y bydd yn arwain at dynhau'r cyfnod lloea ymhellach.



Ffigwr 2. Patrwm lloea ar fferm Bryn yn 2019 a 2020 o'i gymharu â meincnod y diwydiant

Ers dechrau ei gyfnod fel ffermwr arddangos, mae Huw Jones wedi bod yn pesgi teirw fel biff yn hytrach na'u gwerthu fel gwartheg stôr. O ganlyniad i dderbyn arweiniad gan Cyswllt Ffermio fel rhan o'r prosiect safle arddangos, bydd yn gwneud elw o £3,500 trwy werthu 19 o deirw wedi'u pesgi yn 2021. Mae hyn wedi cael ei gyfrifo trwy ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol:

- Costau porthiant o £250 fesul tunnell (wedi defnyddio 10 tunnell)
- Costau haidd wedi'i rollo – £150 fesul tunnell (wedi defnyddio 20 tunnell)
- Costau gwellt
- Pris biff - £3.70 fesul kg a phwysau carcass o 330kg = £1,200 y pen
- Elw gros = **£3,500**

Bydd y prosiect yn parhau i asesu perfformiad y fenter biff a chanfod meysydd allweddol er mwyn gwella proffidoldeb a chynaliadwydd y busnes.

Gweminarau

CYNHALIYD 45 GWEMINAR gyda **1,949 OWYLLWYR**

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

09/02/2021: Pam bod elfennau hybrin yn bwysig mewn systemau defaid?

Bu'r milfeddyg profiadol, Joe Angell o Filfeddygon Wern yn trafod pa elfennau hybrin penodol sy'n bwysig yn y sector defaid.

MYNYCHOD
60
BUSNES Y WEMINAR HON

23/02/2021: Ffermio defaid godro – dull newydd yng Nghymru

Bu'r ymgynghorydd amaethyddol, James Holloway, a'r ffermwr defaid o Seland Newydd, Ian MacDonald, yn ymuno â Cyswllt Ffermio i archwilio dichonolrwydd sefydlu diwydiant defaid godro yng Nghymru.

MYNYCHOD
44
BUSNES Y WEMINAR HON

30/03/2021: A ydych chi'n defnyddio'r system orau ar gyfer trin stoc?

Bu'r ymgynghorydd, Miram Parker, o Livestock Wise yn trafod systemau trin da byw, gan ganolbwyntio ar wneud systemau trin yn gynt, yn fwy diogel ac yn haws.

MYNYCHOD
8
BUSNES Y WEMINAR HON

 **26** O BROSIECTAU DA BYW WEDI'U CYMERADWYO

yn gweithio gyda

 **173** FFERMWR A CHOEDWIGWR




Gwella diagnosis a thriniaeth llyngyr gastroberfeddol mewn gwartheg

Mae tri ffermwr llaeth yng Ngheredigion yn cymryd rhan mewn prosiect EIP yng Nghymru sy'n ymchwilio i weld a oes angen adolygu triniaethau arferol ar gyfer llyngyr y neu stoc llaeth ifanc oherwydd pryderon ynglŷn ag ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig.

Roedd profion cyfrif wyau ysgarthol ar y tair fferm yn 2020 yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng y ffermydd. Yn benodol, roedd gan fferm 3 faich llyngyr sylweddol is, gan arwain at leihad mawr yn y triniaethau anthelminitig a ddefnyddiwyd, gan amlygu buddion profi'n rheolaidd.

FEC cyfartalog lloi R1 yn 2020



Cynhaliwyd profion FECRT (Profion Lleihau Cyfrif Wyau Ysgarthol) i wirio perfformiad yr anthelminitigau a oedd yn cael eu defnyddio. Roedd canlyniadau o dan 95% yn nodi nad yw'r driniaeth yn perfformio crystal â'r disgwyl ac yn dangos y gallai ymwrthedd fod yn broblem. Nid oedd y cyfrif wyau ysgarthol yn ddigon uchel ar Fferm 3 i gynnal y prawf. Ar y ddwy fferm, roedd y grŵp macrocyclic lactone (Ivermectin a Moxidectin) yn dangos lefelau isel o effeithiolrwydd, ac roedd benzimidazole a levamisole yn gwbl effeithiol.

Fferm	Fferm 1		Fferm 2	
	ostyngiad %	BI y brofir	ostyngiad %	BI y brofir
Triniaeth llyngyr (grŵp)				
BENZIMIDAZOLE Oral (1 BZ)	100%	2019	96%	2020
LEVAMISOLE Oral (2 LV)	98%	2020	98%	2019
IVERMECTIN Injectable (3ML) – 1	81%	2019	44%	2019
IVERMECTIN Injectable (3ML) – 2	62%	2020	57%	2020
IVERMECTIN Pour-On (3ML) – 1	–	–	8%	2019
MOXIDECTIN Injectable (3ML)	–	–	86% (?)	2019
MOXIDECTIN Pour-On (3ML)	80%	2020	20%	2020

Bydd y grŵp yn parhau i fonitro lefelau FEC ac yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud i wirio'r rhywogaeth llyngyr sy'n bresennol ar y ffermydd a sut mae'r gwahanol rywogaethau'n ymateb i driniaethau ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Bydd hyn yn helpu wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dewisiadau triniaeth.

Gwasanaeth Cyngori



Derbyniodd 11 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 18 grŵp gymorth drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Grwpiau Trafod

Grŵp Trafod Buchod Sugno Sir Benfro – Rheoli buchod sugno a lloi yn ystod y cyfnod lloia

Dechreuwyd y drafodaeth wrth i Dr Alex Corbishley o Brifysgol Caeredin nodi pwysigrwydd sgôr cyflwr corff (BCS) o ran lloia a ffrwythlondeb. Mae BCS yn effeithio'n sylweddol ar nifer y lloi sy'n cael eu diddfnu fesul 100 o wartheg sy'n cael eu troi at y tarw. Dylai'r BCS fod yn 2.5-3 wrth loia i osgoi unrhyw broblemau gyda'r gallu i eni lloi a bywiogrwydd lloi, gan fod gwartheg tenau neu dros bwysau yn fwy tebygol o fod angen help wrth eni lloi.

Yna, trafodwyd pwysigrwydd mwynau ac elfennau hybrin i sicrhau llwyddiant wrth loia. Mae pori glaswellt fel arfer yn bodloni gofynion gwartheg o ran calsiwm a ffosfforws, ond mae'n bosibl y bydd angen rhoi ychwanegion magnewsiwm i helpu i osgoi twymyn llaeth a'r ddera. Gall diffyg cydbwysedd mewn calsiwm a magnewsiwm gyfrannu at eni llo'n araf, roedd Alex yn annog y grŵp i wirio eu bod yn bwydo mwynau ar gyfer buchod sugno yn hytrach na chynnyrch ar gyfer gwartheg i'w pesgi.

Trafodwyd y ffaith bod colostrwm yn ffactor pwysig o ran cyfran marwolaeth lloi mewn buchesi biff. Cyfeiriodd Alex at astudiaeth lle cynhaliwyd prawf gwaed ar 500 o loi, a ddangosodd bod y rhai nad oedd yn derbyn digon o golostrwm o fewn 4 awr i'w geni yn ddwy waith yn fwy tebygol o farw neu fod angen triniaeth. Mae risgiau ar gyfer diffyg amsugno colostrwm yn cynnwys cario gefeilliaid, y fam yn heffer, anawsterau wrth eni, ymyrraeth er mwyn canfod tethi, derbyn colostrwm y fam trwy diwb a derbyn colostrwm artiffisial trwy botel. Synnwyd y grŵp gyda'r tri ffactor olaf gan ei fod yn dangos er bod cymorth yn cael ei roi, nid dyma'r cymorth yr oedd ei angen.

I gloi, bu Alex yn edrych ar yr hyn y gall ffermwyr ei wneud yn ystod y cyfnod lloia i wella lefelau goroesi, gan gynnwys talu sylw penodol i heffrod a gwartheg tenau a gwartheg sy'n cario gefeilliaid, gan eu bod yn llawer mwy tebygol o fod angen help; peidio â symud gwartheg cyn lloia; peidio â pheryglu cyflenwad colostrwm, a cheisio sicrhau bod y llo'n derbyn digon o golostrwm.

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

AFIECHYDON AR LYGAID DEFAID



AFIECHYD JOHNE'S MEWN GWARTHG



BIODDIOGELWCH A CHWARANTIN



CLWY AFFRICANAIDD Y MOCH



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cwrs	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel	15
DIY Ffrwythlonni Artiffisial (AI)	11
Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel	11
Trimio Traed Gwartheg	10
Rheoli Cnoflod ar Ffermydd	4